PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI AR DDATGANIADAU BUDD

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
|---|---|---|
| | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 10 Mehefin 2011 | Adolygiad 1 | |
| 5 Mehefin 2017 | Adolygiad 2 | Amherthnasol |
| 28 Ionawr 2019 | Adolygu ac ail-gymeradwyo | |
| 22 Medi 2022 | Adolygu ac Ail-gymeradwyo | |
| 22 Mehefin 2023 | Adolygu yn arwain at fân newid i deitlau swyddi | Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb wedi'u cwblhau |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol | Ysgrifennydd Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 22 Medi 2022 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## Polisi ar Ddatganiadau Budd

### 1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi Polisi'r Brifysgol yn ymwneud â datganiadau budd posibl, ac mae'n darparu canllawiau i'w haelodau[1] i asesu a oes yna wrthdaro buddiannau ai peidio mewn cysylltiad â gweithgaredd arfaethedig. Mae hefyd yn amlinellu'r drefn ar gyfer datgelu gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff (yn cynnwys staff er anrhydedd) a gyflogir gan y Brifysgol.

Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â'r *Polisi ar Gysylltiadau Personol Staff a Myfyrwyr*, y *Polisi Recriwtio a Dewis* a'r *Polisi ar Wasanaethau Ymgynghorol*.

Mae Prifysgol Bangor o'r farn bod sefydlu cysylltiadau rhwng ei haelodau a chyrff allanol, megis adrannau llywodraeth, cwmnïau masnachol a diwydiant, nid yn unig er budd y cyhoedd ond hefyd o fantais i'r Brifysgol a'r unigolion dan sylw. Mae'n bosib fodd bynnag y gall cysylltiadau o'r fath esgor ar wrthdaro buddiannau sy'n ymwneud â materion megis ymrwymiad a theyrngarwch. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r egwyddor na ddylai gweithgareddau ei haelodau arwain at wrthdaro buddiannau heb eu datgan neu heb eu rheoli.

I'r Brifysgol mae ymrwymiad a theyrngarwch sylfaenol aelodau staff ac aelodau'r Cyngor yn ddyledus. Serch hynny, gall aelodaeth o bwyllgorau, byrddau, grwpiau ymgynghorol ac ati (penodiadau allanol) osod ymrwymiad (ac weithiau ddyletswydd statudol) i weithredu er lles gorau'r corff allanol. O ganlyniad, gall gwrthdaro buddiannau godi. Gall gwrthdaro buddiannau posib godi hefyd pan fydd aelod staff yn cymryd rhan yng ngweithgareddau mewnol cyfreithlon y brifysgol, er enghraifft mewn perthynas â'u swyddogaeth wrth wneud penderfyniadau rheoli, ariannol, strategol neu weithredol, neu mewn perthynas â'u diddordebau ymchwil, marcio arholiadau, neu oruchwylio myfyrwyr. Dyletswydd aelodau'r Brifysgol yw datgelu unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib fel y diffinnir ef gan y Polisi hwn.

Yn lle ceisio gwahardd yr holl weithgareddau a allai esgor ar wrthdaro buddiannau, mae'r Polisi hwn yn cynnig dull gweithredu triphlyg:

- Datgelwch y gwrthdaro bob amser cyn gynted ag y gwyddys amdano;
- Rheolwch y gwrthdaro lle bo hynny'n ymarferol;
- Gwaherddwch y gweithgaredd pan fo angen er mwyn gwarchod unigolyn neu les y cyhoedd neu fuddiannau Prifysgol Bangor;

### 2. Diffiniadau

At ddiben y polisi hwn defnyddir y diffiniadau canlynol:

2.1 Diffinnir Gwrthdaro buddiannau" fel:

> Gweithred neu sefyllfa, wirioneddol, bosib neu ganfyddedig a allai olygu bod ystyriaethau o fudd personol, neu fudd i'r teulu agos neu gydnabod agos, boed yn fudd ariannol neu fel arall, yn dylanwadu ar unigolyn.

1 Staff, staff er anrhydedd, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau'r Cyngor,

i) Gall sefyllfaoedd o’r fath gynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i’r canlynol: -

- Swyddi Cyfarwyddwr Gweithredol ac Anweithredol / Ymddiriedolwyr
- Gweithgareddau allanol, ymchwil fasnachol ac ymgyngoriaethau

ii) Gall achosion eraill penodol o wrthdaro buddiannau ddeillio o’r canlynol:

- Projectau ymchwil
- Buddiannau ecwiti
- Addysgu ac asesu cydnabod agos [2]
- Caffael

Mae’r term yn cynnwys gwrthdaro dyletswydd (pan, er enghraifft, fo dyletswydd unigolyn i’r Brifysgol yn gwrthdaro â dyletswyddau’r unigolyn hwnnw fel cyfarwyddwr cwmni deilliedig[3], hawliau, ymrwymiadau, buddiannau a gwrthdaro tebyg pa un ai fel unigolyn neu fel cynrychiolydd Prifysgol Bangor). Mae’n cynnwys hefyd wrthdaro buddiannau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

2.2 Diffinnir “teulu agos” fel priod neu bartner sifil a / neu blant.

Ond at bwrpas y polisi hwn gall gwrthdaro buddiannau cydnabod agos ymestyn i'r enghreifftiau eraill canlynol - partner, rhiant, brawd, chwaer, taid, nain, ŵyr, wyres, mam-yng-nghyfraith, tad-yng-nghyfraith, chwaer-yng-nghyfraith, brawd-yng-nghyfraith, mab-yng-nghyfraith, merch-yng-nghyfraith, a llys aelodau o'r teulu.

2.3 Gallai gwrthdaro buddiannau “ariannol” gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gomisiwn, ffioedd ymgynghorol, buddiannau ecwiti, dyled, eiddo, breindaliadau, hawliau eiddo deallusol, prosesau caffael a / neu drafodaethau contract / ymgynghoriaeth.

## 3. Datganiadau

### 3.1 Aelodau'r Cyngor, Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, Deoniaid, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor, ynghyd â holl staff uwch y Brifysgol gan gynnwys aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol ddatgan unrhyw fuddiannau allanol yn flynyddol, ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Ar gyfer holl staff uwch y Brifysgol, rhaid i'r datganiadau hyn gael eu cofnodi ar y Gofrestr ar-lein sydd dan oruchwyliaeth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, a chynnwys enw pob unigolyn, yn ogystal â’r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen ddatgan. Anfonir cyswllt i'r Gofrestr at yr holl staff perthnasol yn flynyddol.

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor lenwi’r Ffurflen Datgan Buddiant cyn cyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd.

---

2 Mae Polisi’r Brifysgol ar Gysylltiadau rhwng Staff a Myfyrwyr yn rhoi rhagor o arweiniad ar y mater hwn
3 At bwrpas y Polisi hwn ystyr cwmni deilliedig yw cwmni a sefydlwyd neu (os ydyw i bob pwrpas yn anweithredol) a wneir yn weithredol gyda’r bwriad o fasnachu Eiddo Deallusol sy’n tarddu o’r Brifysgol (naill ai ar ei ben ei hun neu gydag Eiddo Deallusol arall).

Mae'n rhaid i holl aelodau newydd y Cyngor lenwi ffurflen Datgan Buddiant o fewn tri mis iddynt ddechrau ar eu cyfnod yn y swydd fel aelodau o'r Cyngor. Rhaid i bob aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, ynghyd â Deoniaid, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol gwblhau datganiad cyn pen tri mis ar ôl ymgymryd â'u swyddi fel Uwch Swyddogion y Brifysgol.

Ym mhob achos, rhaid i aelodau'r Cyngor ac uwch aelodau staff y Brifysgol gynnwys unrhyw fuddiannau personol, ariannol neu fanteisiol a allai - neu y gellid pe baent yn hysbys i'r cyhoedd - gael eu dehongli yn ymyrryd â'u cyfrifoldebau fel aelodau'r Cyngor neu uwch aelodau staff y Brifysgol i weithredu'n unig er lles gorau'r Brifysgol. Bydd hyn yn cynnwys cofrestru buddiannau perthnasol hysbys gŵyr/gwragedd, partneriaid neu blant. Fe'u cynghorir hefyd i ddatgelu unrhyw eiddo (boed yn rhydd-ddaliad neu'n lesddaliad) sy'n ffinio ag unrhyw eiddo sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a ddefnyddir ganddi. Fe'u cynghorir ymhellach, i roi gwybod i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau o bwys yn eu hamgylchiadau sydd angen eu cofnodi ar y Gofrestr, ac mae'n ofynnol arnynt hefyd i roi gwybodaeth wedi ei diweddaru pan wneir cais iddynt. Yn ogystal â datganiadau a wneir o dro i dro o dan delerau'r Polisi hwn, caiff cofnodion eu diweddaru'n rheolaidd a bydd gofyn i aelodau'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol ddarparu gwybodaeth wedi ei diweddaru pan wneir cais iddynt.

Bydd datganiadau budd sy'n ymwneud ag aelodau o'r Cyngor ac uwch aelodau staff y Brifysgol ar gael i'r cyhoedd yn y tudalennau Llywodraethu a Rheoli ar wefan y Brifysgol.

### 3.2 Cofrestr Buddiannau Ar-lein

Mae'r Gofrestr Buddiannau yn ddogfen gyhoeddus a arolygir ar adegau gan yr archwilwyr a chan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rhaid cadw at ofynion Deddf Diogelu Data 2018 mewn perthynas â'r holl wybodaeth bersonol. Cedwir y Gofrestr yn ddiogel ar rwydwaith Prifysgol Bangor dan oruchwyliaeth Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

Bydd y Gofrestr ar-lein yn cynnwys y datganiadau buddiant ar gyfer y grŵp a amlinellir yn 3.1 uchod yn unig; yn achos aelodau staff eraill sy'n dymuno datgan gwrthdaro buddiannau, bydd y weithdrefn a amlinellir yn 3.3 isod yn gymwys.

Gwneir archwiliad blynyddol o'r Gofrestr ar-lein gan y Dirprwy Ysgrifennydd / Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethu ond mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i fonitro ac archwilio cydymffurfiad â'r Polisi hwn ar hap. Adroddir canlyniad unrhyw archwiliad o'r Gofrestr i'r Grŵp Tasg Cydymffurfio yn ei gyfarfod nesaf, a rhoddir gwybod i'r Cyngor o dan brosesau llywodraethu arferol.

Cedwir y datganiadau ar y Gofrestr am 6 blynedd yn dilyn cwblhau'r penodiad perthnasol.

### 3.3 Aelodau Staff Eraill

Rhaid i unrhyw aelod staff, nad ydynt eisoes dan ofyniad i lenwi datganiad blynyddol o dan Adran 3.1 uchod, ac sy'n ymwybodol o wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib, fel y diffinnir yn adran 2.1 y Polisi hwn, yn y lle cyntaf, godi'r mater yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd gyda Phennaeth yr Ysgol (os ydynt yn aelodau staff adran academaidd) a ddylai roi gwybod hefyd i Ddeon y Coleg (os ydynt yn aelodau staff mewn Coleg) neu gyda Chyfarwyddwr y gwasanaeth proffesiynol perthnasol. Yn arbennig, byddai'n berthnasol i aelodau staff sy'n gwneud penderfyniadau ariannol ar ran y Brifysgol e.e. rhai sy'n ymwneud â chontractau, cytundebau, caffael etc., wneud datganiad blynyddol gan ddefnyddio'r drefn hon.

Pennaeth yr Ysgol / Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Proffesiynol sy'n gyfrifol am reoli'r datganiad gan gynnwys sicrhau y rhoddir gwybod am y wybodaeth lle bo'n berthnasol cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud, a sicrhau y gwneir cofnod cywir o'r datganiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed i reoli'r gwrthdaro.

Dylai'r cofnod o unrhyw ddatganiad a wneir gan aelod staff, ynghyd â'r penderfyniadau a wnaed i reoli'r gwrthdaro, gael ei gadw ar gofnod yn yr ysgol neu'r adran briodol, a'i adolygu'n ysbeidiol gyda'r aelod staff, ac, unwaith nad ydyw'r mater bellach yn berthnasol, ei ddinistrio'n gyfrinachol.

Yn achos aelod staff, gallai methu â datgelu arwain at gamau disgyblu.

### 3.4 Pwyllgorau a Grwpiau Tasg y Brifysgol

Dylai datgan buddiant fod yn eitem sefydlog ar yr agenda yn achos holl bwyllgorau, byrddau a grwpiau tasg y Brifysgol. Bydd unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd, neu unrhyw Bwyllgor neu Grŵp Tasg y Brifysgol, gan gynnwys Byrddau Arholi, sydd wedi datgelu buddiant mewn unrhyw fater sydd dan ystyriaeth, neu sydd â buddiant yn y mater dan drafodaeth, yn datgan y buddiant hwn ar unwaith. Y Cadeirydd fydd wedyn yn penderfynu a yw'r unigolyn yn gadael yr ystafell ar gyfer y penderfyniad yn unig, neu a yw'r mater yn cyfiawnhau i'r unigolyn adael yr ystafell tra bod y mater sydd wedi peri'r datgan buddiant dan ystyriaeth, a thros gyfnod y drafodaeth ar y mater. Dylai'r ffaith bod yr aelod wedi datgan buddiant ac wedi gadael yr ystafell tra bod y mater dan drafodaeth, gael ei nodi yng nghofnodion swyddogol y cyfarfod.

Serch hynny, ni chaiff unrhyw benderfyniad a wnaed yn briodol gan y Llys, y Cyngor, y Senedd, neu unrhyw Bwyllgor neu Grŵp Tasg y Brifysgol, ei annilysu oherwydd bod aelod wedi peidio â datgan buddiant yn y cyfarfod y gwnaed y penderfyniad ynddo.

### 3.5 Prosesau Derbyniadau a Recriwtio

Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod y gall fod yn rhaid i staff sy'n ymwneud â recriwtio staff, a phrosesau derbyniadau myfyrwyr, ar adegau, ystyried ceisiadau gan unigolion y mae ganddynt berthynas bersonol â hwy (e.e. perthynas agos). Er budd tegwch a thryloywder, o dan yr amgylchiadau hyn gofynnir i staff ddatgan y berthynas i'w rheolwr llinell, ac ymatal o'r broses benderfynu lle bynnag y bo modd.

### 3.6 Penderfyniadau Ansawdd Academaidd

Pan fo proses ansawdd academaidd yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â phartner allanol, ni all unrhyw berson sydd â buddiant yn y partner allanol chwarae rhan yn y broses honno mewn cymhwyster ymgynghorol na chymhwyster gwneud penderfyniadau. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt: Grwpiau Prifysgol sy'n gwneud penderfyniadau academaidd, prosesau cymeradwyo / ail-gymeradwyo, yn cynnwys paneli cymeradwyo, a phaneli archwilio.

Bydd unrhyw un sy'n gweithredu mewn cymhwyster ymgynghorol neu gymhwyster gwneud penderfyniadau sydd wedi datgan buddiant mewn perthynas â'r partner allanol, neu sydd â buddiant mewn perthynas â'r partner allanol, yn datgan y buddiant hwn ar unwaith a rhaid iddynt dynnu'n ôl o'r broses.

Lle bo aelod staff sydd â buddiant yn y partner allanol yn gysylltiedig â phroses ansawdd academaidd (er enghraifft, cyflwyno cynnig ar ran Ysgol academaidd), rhaid iddynt ddatgan y buddiant hwn ar

unwaith. Rhaid rhoi gwybod i bawb sy'n gweithredu mewn cymhwyster ymgynghorol neu gymhwyster gwneud penderfyniadau, a rhaid i'r buddiant gael ei nodi mewn unrhyw gofnodion neu adroddiadau perthnasol. Yn ôl doethineb y Cadeirydd neu'r swyddog sy'n gyfrifol am y broses, gellir gofyn i'r aelod staff dan sylw dynnu'n ôl o'r broses.

## 4. Cydymffurfio

Rhaid i holl aelodau'r Cyngor, Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol, ynghyd ag aelodau eraill o staff y Brifysgol (lle mae'n berthnasol iddynt wneud hynny) sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phob agwedd ar y Polisi hwn.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio, yn y lle cyntaf, i'r Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Gall camau pellach gael eu hystyried mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifenydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r Polisi yn cael ei drin yn ddifrifol gan y Brifysgol a gellir ei ystyried dan weithdrefnau disgyblu.

## 5. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd adolygiad o'r polisi hwn a phennwyd nad oes angen Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

## 6. Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd neu'n gynharach os bydd angen.